
BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU
20/09/2024

Yn bresennol:

Aelodau â Phleidlais – Y Cynghorwyr:- Jason McLellan (Cyngor Sir Ddinbych), Robin Williams (Cyngor Sir Ynys Môn), Dave Hughes (Cyngor Sir Y Fflint), Charlie McCoubrey (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), a Dyfrig Siencyn (Cyngor Gwynedd) (Cadeirydd).

Ymgynghorwyr - Richard Day (Prifysgol Wrecsam), Askar Sheibani (Bwrdd Cyflawni Busnes), Aled Jones-Griffith (Grŵp Llandrillo Menai) a Paul Spencer (Prifysgol Bangor).

Prif Swyddogion – Dylan Williams (Cyngor Sir Ynys Môn), Rhun ap Iarll (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Neal Cockerton (Cyngor Sir y Fflint), Sioned Williams (Cyngor Gwynedd) David Fitzsimon (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) a Graham Boase (Cyngor Sir Ddinbych)

Swyddogion yn bresennol – Siwan Glyn (Archwilio Cymru)

Awdurdod Lletya - Iwan G Evans (Swyddog Monitro), Dewi Morgan (Swyddog Cyllid Statudol), Siân Pugh (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol) a Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

Uchelgais Gogledd Cymru - Hedd Vaughan-Evans (Pennaeth Gweithrediadau), Stuart Whitfield (Rheolwr Rhaglen Ddigidol), David Mathews (Rheolwr Rhaglen Tir ac Eiddo), a Nia Medi Williams (Uwch Swyddog Gweithredol).

Sylwedyddion –John Hawkins (Sylwedydd Llywodraeth y DU).

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:-

- Y Cyngorydd Gary Pritchard (Cyngor Sir Ynys Môn) gyda'r Cyngorydd Robin Williams yn dirprwyo.
- Yr Athro Joe Yates (Prifysgol Wrecsam) gyda Richard Day yn dirprwyo.
- Yr Athro Edmund Burke (Prifysgol Bangor) gyda Paul Spencer yn dirprwyo.
- Dafydd Gibbard (Cyngor Gwynedd) gyda Sioned Williams yn dirprwyo.
- Ian Bancroft (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) gyda David Fitzsimon yn dirprwyo.
- Gareth Ashman (Sylwedydd Llywodraeth DU) gyda John Hawkins yn dirprwyo.
- Wendy Boddington (Llywodraeth Cymru)
- Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam).
- Yana Williams (Coleg Cambria).
- Alwen Williams (Cyfarwyddwr Portffolio Uchelgais Gogledd Cymru).

Croesawodd y Cadeirydd y dirprwyon i'r cyfarfod.

Llongyfarchwyd y Cyngorydd Dave Hughes ar gael ei ethol yn Arweinydd Cyngor Sir y Fflint yn ddiweddar ac fe'i groesawyd i'w gyfarfod cyntaf o'r Bwrdd.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan Aled Jones-Griffith (Grŵp Llandrillo Menai) ar gyfer Eitem 9. Nodwyd ei fod yn fuddiant sy'n rhagfarnu ac fe adawodd y cyfarfod ar gyfer yr eitem.

3. MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 17 Gorffennaf 2024 fel rhai cywir.

5. CYLLIDEB REFENIW A CHYFALAF 2024/25 – ADOLYGIAD DIWEDD AWST 2024

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth Cyllid Cynorthwyol yr Awdurdod Lletya.

PENDERFYNWYD

1. Nodi a derbyn adolygiad refeniw diwedd Awst 2024 y Bwrdd Uchelgais.
2. Nodi a derbyn diweddariad cronfeydd wrth gefn y Bwrdd Uchelgais.
3. Cytuno ar broffil gwariant cyfalaf diwygiedig y Bwrdd Uchelgais.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

- Nodi tanwariant a ragwelir o £5,966 yn erbyn y gyllideb refeniw yn 2024/25.
- Nodi llithriad pellach ar y rhaglen gyfalaf, gydag amcangyfrif o wariant o £14.28m yn 2024/25 o'i gymharu â chyllideb gymeradwy £24.67m ar gyfer y flwyddyn.

TRAFODAETH

Eglurwyd bod yr adroddiad yn nodi gwir sefyllfa refeniw gyd at ddiwedd Awst 2024 ac hefyd yn amcanu'r sefyllfa hyd at y flwyddyn ariannol gyfredol. Amcanwyd tanwariant o £6,000 erbyn diwedd y flwyddyn ariannol 2024/25 ac manylwyd ar wahanol elfennau o'r gyllideb fel a ganlyn:

- Rhagwelwyd gorwariant net o £9,368 ar gyfer y 'Swyddfa Rheoli Portffolio' yn sgil gorwariant ar gyflenwadau a gwasanaethau. Nodwyd bod y gorwariant hwn yn deillio o gostau systemau ac esboniwyd bydd angen adolygu'r pennawd cyllideb hwn ar gyfer y dyfodol.
- Eglurwyd bydd yr £20,000 o danwariant 'Cefnogaeth Gwasanaethau Cefnogol Cyllid Cyngor Gwynedd' yn cael ei ddefnyddio er mwyn ariannu'r gwariant ar gefnogaeth gyllidol allanol sy'n rhan o'r pennawd 'Prosiectau'.
- Cadarnhawyd y disgwylir i'r gwariant o dan y pennawd 'Cyd-bwyllgor' fod o fewn y gyllideb ar gyfer 2024/25.
- Nodwyd bod y pennawd 'Prosiectau' yn dangos gorwariant net o £70,000. Eglurwyd bod hyn yn bennaf oherwydd cefnogaeth gyfreithiol allanol sydd ei angen ar nifer o brosiectau'r rhaglen gyfalaf.
- Esboniwyd bod y pennawd 'Grantiau' yn cynnwys gwariant ar brosiectau Ynni Ardal Leol a Chronfa Ffyniant Gyffredin. Cadarnhawyd bod estyniad nes Mawrth 2025 wedi ei dderbyn yn ddiweddar ar grant Ynni Ardal Leol felly bydd y gorwariant hwn yn cael ei ariannu gan y grant.

Cyfeiriwyd at brif ffrydiau incwm ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25. Nodwyd bod rhain yn cynnwys cyfraniadau partneriaid, dyraniad refeniw 'Grant Cynllun Twf Gogledd Cymru' grant Ynni Llywodraeth Cymru, Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru, y Gronfa Ffyniant Gyffredin a'r gronfa wrth gefn.

Adroddwyd ar sefyllfa cronfeydd y Bwrdd gan nodi yr amcanwyd balans o bron i £211,000 yn y gronfa wrth gefn gyffredinol. Amcanwyd balans o £152,000 yn y gronfa prosiectau a £7.2miliwn yn y gronfa llog. Esboniwyd bod y gronfa llog wedi ei neilltuo i ariannu costau benthyca yn y dyfodol. Nodwyd bod llogau uchel ar hyn o bryd yn golygu bod y Bwrdd yn derbyn swm sylweddol o log ar y balansau gydag amcan llog o £2.5miliwn ar gyfer 2024/25.

Rhannwyd sefyllfa ddiweddaraf y rhaglen gyfalaf gan nodi gostyngiad net o £10.39miliwn yng ngwariant disgwylidig ar gyfer 2024.25. Esboniwyd bod hyn oherwydd oediad ar bedwar prosiect sef 'Ynni Lleol Blaengar', 'Gwastraff i Danwydd Glannau Dyfrdwy', 'Porth Caergybi' a 'Safle Cyn Ysbyty Gogledd Cymru'. Fodd bynnag, nodwyd bod gwariant tebygol ar brosiectau 'Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol' ac 'Rhwydwaith Talent Twristiaeth' o fewn y flwyddyn ariannol gyfredol. Ymhelaethwyd bod oediad tebygol o ddwy flynedd ar brosiectau 'Stiwio Kinmel' ac 'Hwb Economi Wledig Glynllifon'.

Cadarnhawyd bod grant y Cynllun Twf o £56.9miliwn sydd eisoes wedi ei dderbyn yn ddigonol er mwyn ariannu gwariant hyd at diwedd flwyddyn ariannol 2025/26 yn seiliedig ar y proffil gwariant diwygiedig hwn.

Mewn ymateb i ymholiad ar or-wariant ar Gefnogaeth Cyfreithiol a Chyllidol Allanol o dan y pennawd 'Prosiectau', cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol bod cefnogaeth ariannol allanol wedi cael ei ddefnyddio er mwyn derbyn mewnbwn ar geisiadau busnes. Cydnabuwyd bod hyn wedi arwain at orwariant o fewn y teitl 'Prosiectau' ond pwysleisiwyd bod tanwariant o fewn 'Gwasanaethau Cefnogaeth Cyllid' yn diwallu'r gorwariant hwn. Ymhelaethwyd bod y cynnydd mewn gwariant cyfreithiol yn deillio o gynnydd mewn materion cytundebau wrth i brosiectau'r Bwrdd gael eu datblygu'n gynt ac trafodaethau arbenigol i gefnogi cytundebau. Nodwyd yr angen i ail-ystyried y gyllideb ar gyfer cefnogaeth gyfreithiol i'r dyfodol.

6. CYD-BWYLLGOR BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU – CYNLLUN ARCHWILIO MANWL 2024

Cyflwynwyd yr adroddiad gan gynrychiolydd Archwilio Cymru.

PENDERFYNWYD

Derbyniwyd adroddiad Archwilio Cymru a oedd yn amlygu cynllun archwilio'r Bwrdd Uchelgais ar gyfer 2024.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Archwilio datganiadau ariannol Cyd-bwyllgor Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i sicrhau y rhoddir cyfrif priodol am arian cyhoeddus.

Rhaid i'r Cyd-bwyllgor roi trefniadau ar waith i gael gwerth am arian am yr Adnoddau y mae'n eu defnyddio, a rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol fod wedi'i fodloni ei fod yn gwneud hyn.

TRAFODAETH

Tywyswyd drwy Gynllun Archwilio Manwl 2023-24 gan amlinellu'r ffi, risgiau cydnabyddedig, gwybodaeth am y tîm archwilio ac yr amser a gymerwyd i gwblhau'r archwiliad.

Cyhoeddwyd bod y lefel materol wedi ei nodi'n £83,000. Eglurwyd bod y ffigwr hwn wedi ei gyfrifo drwy ganfod 2% (canran perthnasedd) o'r gwariant gros ar hyd y flwyddyn ariannol 2023-24 (£4.159 miliwn). Nodwyd bod y ffi hwn yn uwch na'r flwyddyn flaenorol oherwydd cynnydd mewn gwariant gros. Ymhelaethwyd bod lefel perthnasedd is wedi ei bennu ar gyfer rhai meysydd o'r cyfrifon oherwydd gallent fod yn bwysicach i ddefnyddwyr y cyfrifon. Eglurwyd mai'r meysydd hynny yw 'Tâl uwch swyddogion' ac 'Datgeliadau partïon cysylltiedig'.

Tynnwyd sylw at un risg sylweddol sydd wedi cael ei nodi yn dilyn asesiad o risg cynhenid. Cadarnhawyd mai'r risg yw y gall Rheolwr ddiystyru rheolaethau. Esboniwyd bod y risg wedi ei nodi ar gyfer Arddangosyn 1: risgiau sylweddol i ddatganiadau ariannol, ac ei fod yn cael ei nodi ym mhob cynllun archwilio ar gyfer pob Corff yng Nghymru. Pwysleisiwyd nad yw hwn yn risg sydd wedi cael ei nodi ar gyfer y Bwrdd hwn yn unig. Sicrhawyd bydd Archwilio Cymru yn sicrhau bod eu gweithdrefnau yn ymateb i'r risg hwn.

Esboniwyd bod 'Prisio rhwymedigaeth net cronfa bensiw'n' wedi cael ei nodi fel risg o fewn Arddangosyn 2: meysydd eraill y canolbwyntir arnynt, fel Risg Archwilio. Nodwyd bod y risg hwn yn gyffredinol ei natur ac bydd i'w weld mewn nifer o gynlluniau archwilio diweddar. Pwysleisiwyd nad yw'r risg hon wedi cael ei nodi ar gyfer Bwrdd hwn yn unig.

Manylwyd ar amserlen yr archwiliad gan nodi bod y gwaith Cynllunio Archwilio Manwl wedi ei gwblhau ym mis Gorffennaf 2024 ac bu i'r gwaith archwilio gael ei gyflawn ym mis Awst 2024. Nodwyd y bwriedir cyflwyno adroddiad pellach i'r Bwrdd ym mis Tachwedd.

Amlygwyd bod ffioedd ar gyfer 2024-25 wedi cynyddu 6.4% o ganlyniad i chwyddiant. Amcangyfrifwyd bydd cyfanswm ffioedd archwilio yn £26,754 gan bwysleisio bydd ad-daliad yn cael ei gyflwyni i'r Bwrdd os bydd y gwir ffi yn is, gan nad oes modd i Archwilio Cymru wneud elw.

Diolchwyd i'r swyddogion sydd wedi bod yn cydweithio gydag Archwilio Cymru er mwyn ymateb i unrhyw ymholiadau drwy gydol y broses archwilio.

7. DI-WIFR UWCH – ACHOS BUSNES AMLINELLOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr y Rhaglen Ddigidol.

PENDERFYNIAD

- 1. Cymeradwywyd Achos Busnes Amlinellol ar gyfer y prosiect Di-wifr Uwch, yn amodol ar gymeradwyaeth Llywodraethau Cymru a'r DU o'r broses sicrwydd yr ymgwymerwyd â hi, a bod y Swyddfa Rheoli Portffolio yn rhoi sylw i'r materion sy'n parhau a nodir yn Adran 7 yr adroddiad, ac yn gwneud cais bod Achos Busnes Llawn yn cael ei baratoi er mwyn i'r Bwrdd ei ystyried.**
- 2. Dirprwywyd hawl i'r Cyfarwyddwr Portffolio, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd, roi cymeradwyaeth terfynol o'r fanyleb caffael a'r meini prawf gwerth cymdeithasol cyn i ariannwr y prosiect ddechrau caffael.**
- 3. Awdurdodwyd i'r Cyfarwyddwr Portffolio, mewn ymgynghoriad â Swyddog Adran 151 a Swyddog Monitro'r Awdurdod Lletya, i gytuno ar delerau drafft yn unol â'r adroddiad hwn i'w cymeradwyo gan y Bwrdd Uchelgais fel sail ar gyfer y**

trefniadau ariannu terfynol ar gyfer y prosiect a fydd yn ffurfio sail y Llythyr Cynnig Grant a gaiff ei gytuno gan y Bwrdd ar y cam Achos Busnes Llawn.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Ceisio cymeradwyaeth y Bwrdd i Achos Busnes Amlinellol y Prosiect Di-wifr Uwch.

Fel prosiect sy'n cael ei gyflawni gan Uchelgais Gogledd Cymru, mae angen cymeradwyaeth gan y Bwrdd i sefydlu'r fframweithiau fydd yn cyflawni'r prosiect.

TRAFODAETH

Eglurwyd bydd y prosiect yn cynorthwyo busnesau a chyrrff cyhoeddus i fuddsoddi yn y dechnoleg di-wifr ddiweddaraf, gan gynnwys 5G ac wi-fi o'r radd flaenaf ar draws rhanbarth y Gogledd. Gobeithiwyd bydd hyn yn cynyddu effeithlonrwydd a chynhyrchiant. Nodwyd bod tystiolaeth i gefnogi bod buddsoddiad o'r math hwn yn arwain at ddatblygiad busnes, cynaliadwydd masnachol ac yn creu mwy o swyddi. Tynnwyd sylw bod nifer o gwmnïau mawr wedi manteisio ar y math hwn o dechnoleg ac mae'r prosiect yn gobeithio lleihau'r risgiau masnachol i gwmnïau wrth iddynt ymdrin â'r datblygiad o'r newydd. Ysytirwyd bod y sectorau byddai'n elwa fwyaf o'r dechnoleg yma yn cynnwys gweithgynhyrchu, trafniadaeth, logisteg, amaethyddiaeth a thwristiaeth. Rhannwyd enghreifftiau o fuddsoddiadau posib o fewn y meysydd hyn megis darparu offer ar gyfer llinellau cynhyrchu mewn ffatrioedd, rhwydweithiau preifat 5G, uwchraddio rhwydweithiau i gefnogi gweithrediadau logisteg mewn canolfannau trafniadaeth yn ogystal â cheisiadau Trefi Smart er mwyn gwella monitro a'r cyfathrebu yng nghanol ein trefi.

Adroddwyd bod y prosiect hon yw ail rhan y cynllun 'Campysau Cysylltiedig'. Esboniwyd mai'r prosiect gyntaf oedd prosiect LPWAN a oedd yn ymsetyn darpariaeth Rhwydwaith Ardal Gyfan Pŵer Isel i gefnogi cywysiaid arloseol 'Rhyngwyd y pethau' ar draws sectorau cyhoeddus a phreifat drwy technoleg di-wifr LoRaWAN. Atgoffwyd bod y cynllun hwn wedi ei gymeradwyo gan y Bwrdd eisoes.

Esboniwyd mai prif amcan gwariant y prosiect yw 'Galluogi 100-200 o fusnesau a defnyddwyr sector cyhoeddus ymhob un o siroedd y gogledd i gymryd mantais o gysylltedd di-wifr uwch erbyn 2030'. Gobeithiwyd bydd hyn yn arwain at greu rhwng 130-200 o swyddi o fewn y rhanbarth a chreu GVA net ychwanegol o rhwng £41 miliwn a £62 miliwn erbyn 2036. Amcanwyd hefyd bydd cyfanswm buddsoddiad o rhwng £13miliwn ac £20 miliwn erbyn 2036.

Nodwyd bod y prosiect hon wedi cael ei ddatblygu mewn cydymffurfiaeth â Strategaeth Seilwaith di-wifr y Deyrnas Unedig a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth. Cadarnhawyd bod hyn yn cynnwys cysylltiadau wi-fi, lloeren, LPWAN a 5G. Nodwyd bod y Bwrdd yn cydweithio ac yn efelychu technoleg syd ar waith mewn awdurdodau eraill ar draws Prydain er mwyn sicrhau bod y dechnoleg o'r radd flaenaf ar gael i Gogledd Cymru. Cydnabuwyd nad oes cadarnhad gan y Llywodraeth yn dilyn yr etholiad gyffredinol ar eu safbwyntiau am strategaethau di-wifr uwch ond pwysleisiwyd bydd swyddogion wedi cadarnhau'r safbwyntiau hyn cyn cyflwyno achos busnes llawn.

Tynnwyd sylw at wendidau yn y trefniadau presennol ar draws rhanbarth y gogledd megis darparu cymorth ariannol gyda buddsoddiad cychwynol gan ddefnyddwyr rhanbarthol gan gydnabod bod mabwysiadu technoleg newydd i fusnes yn creu gofid a gall fforddiadwyedd presennol cwmnïau fod yn rwystr i ddatblygiad y prosiect. Cyfeiriwyd hefyd at yr angen i fynd i'r afael â bylchau gwybodaeth a sgiliau er mwyn cynyddu'r ymwybyddiaeth cwmnïau a'r gallu o fewn y rhanberth er mwyn sicrhau lefelau mabwysiadu uchel ar gyfer y prosiect.

Adroddwyd bydd cronfa gwerth £19 miliwn yn cael ei weithredu fel cynllun grant hyblyg i ariannu mabwysiadu datrysiadau di-wifr uwch. Nodwyd bod y cynllun yn cael ei weinyddu gan Uchelgais Gogledd Cymru dros gyfnod o dair mlynedd yn dilyn dyluniad cynllun cychwynnol, y cam cyntaf yw cynnwys dyluniad y cynllun grant a'i sefydlu cyn darparu cyllid cyfalaf i sefydliadau'r sectorau fydd yn gwnued cais am gyllid yn unol ag amodau meini prawf cymhwysedd y cynllun.

Cyfeiriwyd at wariant gyfalaf gan nodi ei fod yn ddibynnol ar ymgynghoriaeth ar y cynllun cychwynnol. Aethpwyd ymlaen i nodi amcangyfrifiadau gwariant refeniw gan bwysleisio pwysigrwydd i gadarnhau cyllideb ar gyfer 'Hybu'r Galw' er mwyn sicrhau bod y sectorau yn gwneud defnydd o'r dechnoleg newydd di-wifr uwch. Esboniwyd bydd hyn yn hyrwyddo cydweithio o fewn y rhanbarth.

Tywyswyd drwy'r adborth a dderbyniwyd wrth ddatblygu'r prosiect hyd yma a chadarnhawyd y camau a gyflawnwyd fel rhan o'r Prosiect Sicrwydd. Manylwyd y cafwyd Aseiad Ambr mewn Adolygiad Porth ym mis Mai 2024 ynghyd ag adborth defnyddiol iawn i ddatblygiad y cynllun.

Rhannwyd trosolwg o brif risgiau'r cynllun gan gynnwys:

- Os bydd y galw am arian gan y sectorau y gyfyngedig, ni fydd buddion y prosiect yn cael eu gwireddu.
- Os bydd y ffi weinyddol sy'n cael ei chymhwyso i ymgeiswyd llwyddiannus yn atal ymgeiswyr rhag cyflwyno cais, efallai bydd llai o'r gronfa cyfalaf yn cael ei cyflwyno. Gall hyn amharu ar y gallu i gyflawni amcanion gwario.
- Os nad oes digon o alw am y grantiau ar y gwerhtoedd isaf a ragnodir yn y cynllun, gallai'r costau sy'n gysylltiedig â chyflawni a gweinyddu fynd yn anfforddiadwy.

Cadarnhawyd bod Uchelgais Gogledd Cymru yn ymwybodol o'r risgiau hyn ac yn gosod gweithdrefnau er mwyn sicrhau bod y risgiau yn cael eu cyfarch.

Eglurwyd bod Uchelgais Gogledd Cymru wedi manteisio ar eu cysylltiadau er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r cynlluniau hyn ac egluro'r buddiannau byddai ar gael iddynt wrth fuddsoddi i dechnoleg di-wifr uwch. Nodwyd eu bod wedi cynnal cyfarfodydd gyda cwmnïau er mwyn eu hysbysu ymhellach ac yn ffyddiog bydd y prosiect yn boblogaidd ymysg y sectorau. Cydnabuwyd bod rhai sectorau yn fwy heriol i gysylltu â nhw a phwysleiswyd bod angen cwblhau mwy o waith ymchwil a chyfathrebu cyson gyda cwmnïau er mwyn deall gwir ddi-ddordeb i ymuno a'r cynllun.

Cadarnhawyd y bwriedir cyflwyno'r achos busnes llawn i'r Bwrdd yn fuan yn 2025.

8. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar Eitem 9 gan ei bod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 - Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny).

Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir, fodd bynnag, fod adegau, er gwarchod buddiannau ariannol a masnachol cyhoeddus, fod angen trafod gwybodaeth o'r fath heb ei chyhoeddi. Mae'r adroddiadau yn benodol ynglŷn â materion ariannol a busnes ynghyd â thrafodaethau cysylltiedig. Byddai cyhoeddi gwybodaeth fasnachol sensitif o'r math yma yn gallu bod yn niweidiol i fuddiannau'r cyrff a'r Cynghorau ac yn tanseilio hyder rhai eraill sydd yn ymwneud â'r Cytundeb Twf i rannu gwybodaeth sensitif ar gyfer

ystyriaeth. Byddai hyn yn groes i'r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau'r allbwn cyfansawdd gorau.

9. PROSIECT RHWYDWAITH TALENT TWRISTIAETH – ACHOS BUSNES LLAWN

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Prosiect Bwyd-amaeth a Thwristiaeth ac Rheolwr Rhaglen Tir ac Eiddo y Cynllun Twf.

PENDERFYNIAD

- 1. Cymeradwywyd Achos Busnes Llawn ar gyfer y prosiect Rhwydwaith Talent Twristiaeth.**
- 2. Awdurdodwyd i'r Cyfarwyddwr Portffolio, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd, y Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro i gytuno a llunio cytundeb ariannu gyda Grŵp Llandrillo Menai ar gyfer cyflawni'r prosiect, ar y sail bod Grŵp Llandrillo Menai yn mynd i'r afael yn foddhaol â'r 'materion sy'n weddill' a nodir yn adran 7.1 yr adroddiad.**
- 3. Dirprwywyd cymeradwyaeth derfynol y caffaeliad sy'n weddill yng Ngham 1 i'r Cyfarwyddwr Portffolio, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd, y Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro lle mae gwariant a buddion o fewn paramedrau'r Achos Busnes Llawn a gyflwynwyd.**
- 4. Dirprwywyd awdurdod i'r Cyfarwyddwr Portffolio, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd, y Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro i gymeradwyo'r Achos Cyfiawnhad Busnes dilynol ar gyfer Cam 2 y prosiect, y bedwaredd is-ganolfan lle mae gwariant a buddion o fewn paramedrau'r Achos Busnes Llawn a gyflwynwyd.**

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Ceisio cymeradwyaeth y Bwrdd i Achos Busnes Amlinellol ar gyfer y prosiect Cydnerth.

TRAFODAETH

Trafodwyd yr adroddiad.

Dechreuodd y cyfarfod am 09:00yb a daeth i ben am 10:40yb.

Cadeirydd